



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2023 - 2024 Adroddiad blynyddol



CYNNWYS

- Tudalen 4 Cyflwyniad
- Tudalen 6 Strwythur y ganolfan a phartneriaethau allweddol
- Tudalen 8 Prif lwyddiannau
- Tudalen 12 Uchafbwyntiau
- Tudalen 24 Canolfan Ymchwil Canser Cymru yn y gymuned
- Tudalen 26 Blwyddyn yn nhîm Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd
- Tudalen 29 Edrych ymlaen at 2024-5



CYFLWYNIAD



Seilwaith datblygu ymchwil yw Canolfan Ymchwil Canser Cymru (WCRC), a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Fe'i cynhelir gan Brifysgol Caerdydd a'i gyflwyno mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch a'r GIG ledled Cymru. Rydyn ni'n darparu goruchwyliaeth a chydlyniant strategol, yn ariannu ymchwilwyr addawol yn uniongyrchol, ac yn hyrwyddo cydweithrediad rhwng ymchwilwyr, sefydliadau a rhanddeiliaid cancer ledled Cymru.

Ein mandadyw adfywio ymchwil canseryng Nghymru, drwy ddarparu arweinyddiaeth a chefnogaeth uniongyrchol ar gyfer ymchwil, yn y chwe thema ymchwil blaenoriaeth a nodwyd yn strategaeth ymchwil cancer Cymru (CReSt):

- ◆ Oncoleg fecanistig a manwl-gywir
- ◆ Imiwno-oncoleg
- ◆ Radiotherapi
- ◆ Treialon clinigol cancer
- ◆ Oncoleg gefnogol a lliniarol
- ◆ Ymchwil i hyrwyddo iechyd yn y boblogaeth, canfod cancer yn gynnar, a gwasanaethau iechyd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi bod yn canolbwyntio ar sefydlu swyddi ymchwil llwybr gyrfu mewn meysydd ymchwil cryf yng Nghymru,

ac ar ddod ag ymchwilwyr a sefydliadau at ei gilydd i gydweithio i greu gweithlu ymchwil cancer fflyniannus a chynaliadwy. Bydd tyfu'r sylfaen ymchwil hon yn ei dro yn denu mwy o fuddsoddiad i Gymru o'r trydydd sector a phartneriaid y diwydiant, er mwyn ysgogi cynnydd pellach.

Ers 1 Ebrill 2023, rydyn ni wedi cefnogi'r gwaith o recriwtio cymuned o oddeutu 30 o ymchwilwyr cancer, yn y chwe gwahanol sefydliad (Prifysgolion Caerdydd, Abertawe, a Bangor, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe). Mae'r rhain yn cynnwys clinigwyr, academyddion, biowybodegwyr a gwyddonwyr data, sy'n cynnal ymchwil ar draws y sbectrwm cyfan, o wyddoniaeth ddarganfod i wyddor ymddygiadol, i dreialon clinigol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi dwysáu ein ffocws ar ddod ag ymchwilwyr at ei gilydd, yn fwyaf nodedig yng Nghynhadledd Ymchwil Canser WCRC a gynhaliwyd yn Amgueddfa Cymru ym mis Mawrth 2024. Clywodd y cynadleddwyr sgryslau gan ymchwilwyr cancer o bob rhan o Gymru, yn ogystal â phrif siaradwyr o wledydd eraill Prydain a chynrychiolwyr cynnwys cleifion a'r cyhoedd, gan gwrdd hefyd â sêr y dyfodol yn y sesiynau poster a

gwobrau poster.

Rydyn ni hefyd wedi lansio menter fiowybodeg draws-thema, sef Rhwydwaith Biowybodeg Canser Cymru, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024, ac rydyn ni'n parhau i ddatblygu rhaglen eang o ddigwyddiadau allgymorth ac ymgysylltu, sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gael cipolwg ar yr ymchwil cancer flaengar sy'n digwydd yma yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi blas ar rywfaint o'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud gan ein cymuned ymchwil cancer, a fydd yn cyfrannu at wella canlyniadau cancer. Ni fyddai dim o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno yn yr adroddiad hwn wedi gallu digwydd heb waith caled ein hymchwilwyr a ariennir, ymgysylltiad cymuned ymchwil cancer gyfan Cymru, a chymorth ein harianwyr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Diolch yn fawr iawn.

Yr Athro Mererid Evans,
Cyfarwyddwr

EIN HYMCHWIL MEWN NIFEROEDD

Metrigau Craidd
Cyfnod adrodd: 2023/2024



Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp



Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd
£975000

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	14	3
Gwerth	£5m	£7m
Cyllid i Gymru	£4.2m	£461000
Cyllid i grŵp	£4.2m	£461000
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	14	3
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	14	3



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan



STRWYTHUR Y CANOLFAN 2023/24

ARWEINYDDIAETH ACADEMAIDD WCRC



Athro Mererid Evans
Cyfarwyddwr

Athro Duncan Baird
Cyfarwyddwr Cyswllt

Athro Sunil Dolwani
Cyfarwyddwr Cyswllt

Dr Helen Pearson
Cyfarwyddwr Cyswllt

TÎM HWB WCRC

PARTNERIAID YMCHWIL LLEYG WCRC

THEMA CREST YN ARWAIN

YMCHWILWYR A ARIENNIR GAN WCRC



Jenni Macdougall Strategaeth
Dr Ceri Morris Gweithrediadau

A ~3FTE o gyfathrebiadau, prosiect a chefnogaeth weinyddol



Julie Hepburn Partner Ymchwil Arweiniol
Bob McAlister Ymchwil CReSt Partner

Ynghyd â 5 Partner Ymchwil arall sy'n cyd-fynd â themâu CReSt

Carfan o 12 arweinydd academiaidd sy'n gyfrifol am:

- cydlynu gweithgaredd ymchwil ar gyfer eu thema
- gweithredu fel hyrwyddwyr ymchwil yn eu maes
- nodi cyfleoedd ar gyfer cynnydd ar y cyd o fewn ac ar draws meysydd thematig

Carfan o ymchwilwyr a ariennir neu a ariennir yn rhannol gan WCRC yn:

Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Bangor
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

★ Aelod o Uwch Grŵp Arwain WCRC

CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Adeiladu Cymuned Ymchwil Canser - Iansio Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru

Cynhaliwyd Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru 2024 ddydd Llun 4 Mawrth yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan ddod ag ymchwilwyr cancer a rhanddeiliaid o bob cwr o wledydd Prydain at ei gilydd. Nod y digwyddiad, a gynhaliwyd gan WCRC, oedd dathlu llwyddiannau diweddar ym maes ymchwil cancer, rhannu cynlluniau ar gyfer y dyfodol a darparu llwyfan ar gyfer rhwydweithio a chydweithio.

Agorwyd y gynhadledd gyda phrif siaradwyr yn mynd i'r afael â phynciau beirniadol ym maes ymchwil cancer, a dechreuwyd gyda'r Athro Eva Morris (Prifysgol Rhydychen) yn ymchwilio i rym data cancer a phwysleisio cyfeiriadau posibl i'r DU yn y dyfodol. Yna archwiliodd Dr Andrew Furness (The Royal Marsden) dirwedd sy'n dod i'r amlwg o therapiau cellog tiwmorau solet, gan drafod safbwyntiau cyfredol a datblygiadau yn y dyfodol, a dilynodd Julie Hepburn (WCRC) a Lowri Griffiths (Cynghrair Canser Cymru) gyda chyflwyniad ar gynnwys cleifion a'r cyhoedd (PPI) mewn ymchwil cancer.

Dywedodd Julie Hepburn, Partner Ymchwil Lleyg Arweiniol WCRC:

"Roedd Cynhadledd WCRC yn ddiwrnod llawn a physur i fi. Roedd yn gyfle gwych i rwydweithio, a chefais sgysiau adeiladol iawn gydag ymchwilwyr – doeddwn i erioed wedi cyfarfod rhai ohonyn nhw o'r blaen – diwrnod boddhaol iawn ar y cyfan."

Yna, parhaodd y gynhadledd gyda sesiynau ar wahân gyda siaradwyr gwadd yn archwilio pynciau o dan chwe thema CReSt (Strategaeth Ymchwil Canser Cymru). Daeth i ben gyda thrafodaeth banel a chwestiynau ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol wrth ganfod a gwneud diagnosis o ganser.

Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd y posteri gwych oedd yn cael eu harddangos a oedd yn dangos y gwaith arloesol ym maes ymchwil cancer sy'n digwydd ledled Cymru. Roedd tair gwobr ar gael ar gyfer posteri a chawsant eu beirniadu mewn categorïau sy'n dathlu'r amrywiaeth o ddisgyblaethau ymchwil a hyrwyddir ledled Cymru: cynnwys cleifion a'r cyhoedd, rhagoriaeth wyddonol, ac effaith yn ymarferol. Yn fuddugol roedd Dr Michelle Edwards gyda'i phoster:

'Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd mewn Astudiaeth Gofal Lliniarol Ledled Ewrop: protocol PPI astudiaeth Serenity' (Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd), Dr Luned Badder gyda'i phoster 'Darparu therapiau hunanladd gan ddefnyddio firotherapi manwl; dulliau newydd ar gyfer cancer y pancreas' (Rhagoriaeth Wyddonol), a Dr Daniel Turnham am ei waith 'Gwerthusiad cyn-glinigol o gyfuniad cyffuriau gwrthgyrff newydd ar gyfer cancer y prostat' (Effaith yn Ymarferol).

Cafodd y gynhadledd ei chanmol gan ymwelwyr am ei chynnwys ysbrydoledig. Dywedodd India Tresadem o Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan:

"Treuliais ddiwrnod gwych yng Nghynhadledd Ymchwil Canser Cymru. Mae hi mor hawdd anghofio bod ymchwil cancer yn bodoli tu allan i'r cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo. Roedd hi'n fraint gweld amrywiaeth o sgysiau yn dangos gwaith arloesol ym maes ymchwil cancer o bob ongl ac roedd yn gyfle anhygoel i fyfrio ar sut mae fy ngwaith fy hun ar astudiaeth QuicDNA yn cysylltu a'r darlun clinigol ehangach. Diolch i WCRC am gydlynu diwrnod mor graff a chyflawn,



rwy'n gobeithio y galla i ddod yn ôl â phoster ymhen blynnyddoedd i ddod!"

Ochr yn ochr â'r sgysiau, y sesiynau rhwydweithio a'r posteri, roedd y gynhadledd hefyd yn cynnwys nifer o stondinau arddangoswyr a gynhaliwyd gan noddwyr y gynhadledd a phartneriaid WCRC. Roedd y rhain yn cynnwys Ymchwil Lechyd a Gofal Cymru, Tenovus, AstraZeneca, Cytiva, Ymchwil Canser Cymru, Therapiau Datblygedig Cymru, y Ganolfan Ymchwil Treialon, Biofanc Canser Cymru, Rhwydwaith Biowybodeg Canser Cymru a thim Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd WCRC. Roedd Roche a Rhwydwaith Canser Cymru hefyd yno fel noddwyr ac yn rhwydweithio gydag ymwelwyr drwy gydol y dydd. Roedd croeso i arddangoswyr fynd i sgysiau'r gynhadledd a manteisiodd nifer ohonynt ar y cyfle i ryngweithio â nhw ond hefyd cawsant gyfle i siarad ag ymwelwyr am eu meysydd arbenigol a gwneud cysylltiadau yn ystod y sesiynau rhwydweithio.

Roedd Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru 2024 yn dathlu cyflawniadau, yn ogystal ag yn gwasanaethu fel llwyfan i gryfhau partneriaethau cydweithio a hyrwyddo ymchwil cancer. Mae WCRC yn ddiolchgar iawn i'r holl siaradwyr, noddwyr, arddangoswyr a'r sawl a ddaeth am wneud hwn yn ddigwyddiad mor llwyddiannus a deniadol rydyn ni'n gobeithio adeiladu arno yn 2025.



"Gobeithio y bydd Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru yn dod yn ddigwyddiad blynnyddol a fydd yn helpu i gefnogi ein cymuned o ymchwilwyr cancer a rhanddeiliaid i fynd o nerth i nerth yn y blynnyddoedd i ddod" Yr Athro Mererid Evans, Cyfarwyddwr WCRC

Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru, 2024, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd



WCRC yn cyflymu ymchwil canser yr ymennydd yng Nghymru



Uchod: Dr Mat Clement, Cymrawd Ymchwil, WCRC

THE BRAIN TUMOUR CHARITY

Dr Mat Clement yn derbyn Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol gan Elusen Tiwmor yr Ymennydd

Mae Dr Mat Clement, Cymrawd Ymchwil a ariennir gan yr WCRC, wedi cael Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol gan Elusen Tiwmor yr Ymennydd, gan ddangos y potensial sydd yn ei brosiect ymchwil 'Trin ymatebion imiwn celloedd-T er mwyn gwella imiwnedd gwrth-Glioblastoma.'

Math ymosodol o ganser yr ymennydd yw Glioblastoma (GBM), na ellir ei wella ar hyn o bryd, ac mae'n gelyd heriol. Ymhlith y dewisiadau triniaeth cyfredol mae llawdriniaeth, cemotherapi, a radiotherapi, ond yn aml, mae'r rhain yn annigonol, gan fod tiwmorau'n ailymddangos er gwaetha'r ymyrraeth. Yn y cyd-destun hwn, nod ymchwil Dr Clement yw gweddnewid triniaethau drwy fanteisio ar bŵer y system imiwnedd. Ffocws ei ymchwil yw deall a thrin ymatebion celloedd-T, sy'n elfennau hollbwysig yn system imiwnedd y corff, a hynny at ddibenion gwella eu gallu i wrthsefyll tiwmorau. Gan fanteisio ar ei brofiad helaeth yn astudio ymatebion imiwn y corff i heintiau firaol cronig a niwroddirwyd, mae Dr Clement yn cynnig cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd i'r brosiect ymchwil hwn. Nod ei ymagwedd ryngddisgyblaethol yw ceisio cynnig cipolwg newydd ar y mecanweithiau sydd wrth wraidd datblygiad GBM a hefyd paratōr ffordd ar

gyfer ymyriadau therapiwtig newydd.

Wrth ddiolch i WCRC am eu cefnogaeth, meddai Dr Clement, "Rwy' ar ben fy nigon yn derbyn y Gymrodoriaeth hon, ac ni fyddai wedi bod yn bosib heb gefnogaeth WCRC a'u buddsoddiad. Mae'r Ganolfan wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy ngyrfa ac rwy'n hynod ddiolchgar iddyn nhw am hynny."

Meddai'r Athro Awen Gallimore, mentor Dr Clement, Cyd-gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Prifysgol Imiwnedd Systemau (SIURI) ac arweinydd thema Imiwno-oncoleg CReSt: "Mae Mat mewn sefyllfa unigryw i fanteisio ar ei brofiad ymchwil wrth iddo astudio'r rhan y mae celloedd-T yn ei chwarae mewn Glioblastoma, a bydd yn cydweithio ag ymchwilwyr, imiwnolegwyr a niwrowyddonwyr o safon fyd-eang ym maes canser yr ymennydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n adnabyddus am ei ddull trawsddisgyblaethol a chydweithredol o weithio, ac mae'n cael ei gydnabod yn eang fel un o sêr y dyfodol. Mae ei brosiect yn ymdrin â maes ymchwil newydd sbon, sy'n adeiladu ar ei waith blaenorol ym maes heintiau firaol a chlyfyd Alzheimer. Mae'n beth cyffrous ei fod yn gallu dod â'r darganfyddiadau hyn i ymchwil canser yr ymennydd."

Meddai'r Athro Mererid Evans, Cyfarwyddwr WCRC: "Mae'r hyn sydd wedi'i gyflawni gan Dr Mat Clement yn destun balchder arthurol i WCRC. Rydyn ni'n wirioneddol falch ohono, ac mae'r tîm i gyd yn ymuno â fi i'w longyfarch. Mae Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol, o'r fath hon, yn crynhoi ein dyheadau ar gyfer ein hymchwilwyr a ariennir. Mae llwyddiant Mat yn enghraifft ddisglair o'r ddawn rydyn ni'n anelu at ei meithrin a'i chefnogi ar hyd a lled Cymru. Rydyn ni'n edrych ymlaen at fwrw ati â'n cenhadaeth o rymuso ymchwilwyr o'r safon uchaf fel Mat yn y dyfodol."

"Ni fyddai wedi bod yn bosib heb gefnogaeth WCRC a'u buddsoddiad. Mae'r Ganolfan wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy ngyrfa
Dr Mat Clement



Uchod: Dr James Powell, Academydd Clinigol, WCRC



Penodi Academydd Clinigol WCRC Dr James Powell yn Arweinydd Clinigol i'r Fenter Ymchwil i Diwmorau ar yr Ymennydd (BATRI) newydd

Mae Dr James Powell, Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol yng Nghanolfan Ganser Felindre ac Academydd Clinigol yn WCRC, yn arwain ar y Fenter Ymchwil i Diwmorau ar yr Ymennydd (BATRI), sef menter ymchwil newydd i diwmorau ar yr ymennydd a ariennir gan Ymchwil Canser Cymru.

Am y tro cyntaf yng Nghymru, nod BATRI yw dod ag arweinwyr academiaidd a chlinigol at ei gilydd i ddatblygu a meithrin mäs critigol ffyniannus o ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd yng Nghymru. Mae'n gyfle a fydd yn helpu i adeiladu ffocws yn yr ymchwil a wneir yng Nghymru, sy'n argymhellid allweddol yn strategaeth CReSt.

Dywedodd Dr Powell: "Rwy'n falch o fod yn arwain ar y fenter genedlaethol wych hon a fydd yn ein galluogi ni i ddatblygu ymchwil newydd ac arloesol i diwmorau ar yr ymennydd yng Nghymru, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd yn cefnogi canlyniadau gwell i gleifion â thiwmorau ar yr ymennydd. Bob blwyddyn yng Nghymru mae dros 400 o bobl yn datblygu tiwmor ar yr ymennydd, ond yn anffodus does fawr ddim triniaethau newydd wedi'u datblygu dros y deugain mlynedd diwethaf. Gyda'r gefnogaeth sylweddol hon gan Ymchwil Canser Cymru, mae gennyn ni gyllid hanfodol cynaliadwy newydd i osod ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd ar sylfaen genedlaethol a gwneud cynnydd gwinioneddol"

Yn hanesyddol mae ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd wedi cael ei thanariannu, gan dderbyn llai na 2% o'r cyllid ymchwil blynyddol i ganser yng ngwledydd Prydain. Bydd Ymchwil Canser Cymru yn rhoi miliwn o bunnoedd y flwyddyn i BATRI am y tair blynedd nesaf. Yn 2023-2024 bydd un galwad cyllid, ond yn y pen draw, bydd galwadau cyllid yn agor ddwywaith y flwyddyn,

gan wahodd ceisiadau gan ymchwilwyr â chynigion newydd ac arloesol ym maes ymchwil tiwmorau ar yr ymennydd.

Meddai Dr Lee Campbell, Pennaeth Ymchwil yn Ymchwil Canser Cymru: "Fel yr unig elusen ymchwil canser annibynnol yng Nghymru, mae Ymchwil Canser Cymru yn falch o sefydlu'r fenter ymchwil bwysig hon sydd ag arwyddocâd strategol i Gymru gyfan. Bydd ein buddsoddiad hirdymor mewn ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd yn sicrhau bod y clinigwyr a'r gwyddonwyr dawnus sydd gennyn ni yn gweithio yn y maes yn cael yr adnoddau angenrheidiol i wneud gwahaniaeth. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn arwain at well dealltwriaeth o'r clefyd, a fydd yn trosi yn driniaethau a strategaethau therapiwtig newydd."

Mae Dr Kathy Seddon, Partner Ymchwil Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd WCRC, hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o lansio BATRI fel cyfrannwr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd: "Rydwi wrth fy modd gyda'r newyddion am BATRI, gan y bu i fy niweddar ŵr farw o diwmor ar yr ymennydd. Mae Ymchwil Canser Cymru wir yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth yn y maes hwn. Mae'n anrhydedd cael bod yn rhan o'r grŵp llywio ar gyfer y fenter hon fel cyfrannwr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd ac fel aelod o Grŵp Ymchwil Amlddisgyblaethol WCRC ar gyfer canser yr ymennydd."

Ochr yn ochr â'i rôl yn Felindre, mae Dr Powell hefyd yn Academydd Clinigol radiotherapi sy'n cael ei ariannu gan y Ganolfan, ac ar hyn o bryd mae'n cyd-arwain Grŵp Ymchwil Amlddisgyblaethol y Ganolfan ar gyfer canser yr ymennydd gyda Dr Florian Siebzehnrubl (Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd, Dirprwy Gyfarwyddwr Sefydliad Bôn-gelloedd Ewrop, ac arweinydd

"Bellach mae gennyn ni gyllid cynaliadwy newydd hanfodol i osod ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd ar sylfaen genedlaethol a gwneud cynnydd go iawn
Dr James Powell

gwyddonol BATRI), sy'n dod ag arbenigwyr ynghyd i drafod a chydweithio ar syniadau ymchwil sy'n cyd-fynd â strategaeth ymchwil canser Cymru gyfan (CReSt).

Dywedodd Dr Powell: "Mae BATRI yn adeiladu ar lwyddiant y Grŵp Ymchwil Amlddisgyblaethol drwy gymryd ymagwedd genedlaethol, strategol a chydlynol tuag at feysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd, ac yna'n darparu cyllid i brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. "Rydyn ni wedi'n cyffroi gan y fenter yma, a gobeithiwn y bydd y cyllid newydd hwn yn cynnig cyfleoedd a chymorth go iawn i ymchwilwyr yng Nghymru i ddatblygu eu rhaglenni ymchwil ac arwain y byd ym maes ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd"

UCHAFBWyNTIAU

Ymchwil WCRC yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn atal a chanfod cancer



Uchod: Sganiwr gwirio iechyd yr ysgyfaint yn Rhondda Cynon Taf

"Bydd Gwiriadau Iechyd yr Ysgyfaint yn ein helpu ni i ganfod mwy o ganserau r ysgyfaint yn gynt, gan olygu y bydd mwy o gleifion yn gallu cael mynediad at driniaeth Yr Athro Kate Brain

Cefnogi peilot Gwirio Iechyd yr Ysgyfaint cyntaf Cymru

Mae Dr Grace McCutchan, Cymrawd Ymchwil i'r ariennir gan WCRC, wedi helpu i lansio cynllun peilot arloesol newydd a fydd yn asesu iechyd yr ysgyfaint yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Lansiwyd y cynllun peilot, dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Rhwydwaith Canser Cymru, ym mis Medi 2023, a dyma'r Aseiad Iechyd yr Ysgyfaint cyntaf yng Nghymru. Bydd yn helpu i roi rhaglen sgrinio cancer yr ysgyfaint ar waith yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y rhaglen beilot yn gweithio gyda meddygfeydd yng ngogledd y Rhondda i gynnig sganio CT dos isel i tua 500 o gleifion sydd â risg uchel o ganser yr ysgyfaint.

Mae ymchwil yn dangos bod canserau'r ysgyfaint sy'n cael eu canfod yn sgil aseidiadau iechyd yr ysgyfaint yn fwy tebygol o gael eu canfod yn gynharach, a allai leihau'r risg o farw o ganser yr ysgyfaint tua 20%. Mae Grace yn aelod o Grŵp Llywio Clinigol y Rhaglen Beilot a'i rôl yw rhoi cyngor ar sail tystiolaeth ym maes y gwyddorau ymddygiadol i annog y cyhoedd i gymryd rhan ac atal cancer mewn ffordd integredig. Er mwyn gwneud hyn, aeth Grace ati i

helpu i ddatblygu deunyddiau gwybodaeth i'r cyhoedd gan ddefnyddio iaith y gellid ei deall yn hawdd a thrwy wahodd y cyhoedd i gymryd rhan ar sail tystiolaeth a chymeradwyaeth gan feddygon teulu.

Meddai yr Athro Kate Brain yn Is-Adran Meddygaeth y Boblogaeth, Prifysgol Caerdydd, a chyd-arweinydd thema 6 CRESt:

"Bydd Gwiriadau Iechyd yr Ysgyfaint yn ein helpu i ddod o hyd i ganser yr ysgyfaint yn gynt. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o gleifion yn gallu cael gafael ar driniaeth ac yn y pen draw bydd canlyniadau cancer yr ysgyfaint yn gwella. Mae lansio rhaglen beilot Gwiriadau Iechyd yr Ysgyfaint yng Nghwm Taf Morgannwg yn newyddion cyffrous iawn i Gymru. Bydd yn rhoi tystiolaeth hollbwysig i lywio'r gwaith o gyflwyno rhaglen sgrinio cancer yr ysgyfaint yn y dyfodol yng Nghymru."

Mae ymchwil Grace yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol sydd ynghlwm wrth ganser a'r ffordd orau o annog pobl i gael aseiad cynnar, annog pobl i chwilio am gymorth os bydd symptomau, a cheisio atal cancer. Mae hi wedi bod ynghlwm wrth yr astudiaeth

YESS (Yorkshire Enhanced Stop Smoking) a ariennir gan Ymchwil Canser Yorkshire, dan arweiniad yr Athro Rachael Murray a Mat Callister ym Mhrifysgol Nottingham.

Nod astudiaeth YESS yw profi'r ffordd orau o gefnogi cleifion i roi'r gorau i ysmegu pan fyddan nhw'n cael eu sgrinio ar gyfer cancer yr ysgyfaint. Bydd canfyddiadau'r astudiaeth hon yn helpu i ddatblygu strategaeth i roi'r gorau i ysmegu yn rhan o'r broses sgrinio cancer yr ysgyfaint yng Nghymru.



Dr Grace McCutchan yn cael ei dewis ar gyfer rhaglen Crwsibl GW4



Uchod: Dr Grace McCutchan

Cafodd Dr Grace McCutchan, Cymrawd Ymchwil yn yr WCRC, ei dewis i ymuno â rhaglen Crwsibl GW4 2024. Mae'r fenter hynod gystadleuol hon yn dod â 30 o arweinwyr ymchwil y dyfodol at ei gilydd i ddatblygu ymagweddau rhyngddisgyblaethol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae Crwsibl GW4, sy'n adnabyddus am feithrin ymchwil arloesol a chydweithredol, yn cynnig cyfle unigryw i gyfranogwyr allu gwella eu gyrfaoedd drwy gyfres o ddiwyddiadau hybrid, gan gynnwys

labordai preswyl wyneb yn wyneb a dosbarthiadau meistr ar-lein.

Mae'r ffaith bod Dr McCutchan wedi'i derbyn i raglen Crwsibl GW4 yn dyst i'w chyfraniadau sylweddol i ymchwil cancer. Mae ei gwaith yn canolbwyntio arddarparu mynediad teg at sgrinio cancer, atal cancer, a gwasanaethau diagnosis cynnar, er mwyn lleihau anghydraddoldebau.

Yn ei hymchwil, mae Dr McCutchan yn defnyddio dulliau gwyddor ymddygiadol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy ddeall a goresgyn rhwystrau seicogymdeithasol rhag canfod cancer yn gynnar a'i atal. Yn nodedig, mae hi wedi arwain ar ddatblygu dau ymyriad ymddygiadol i annog pobl i geisio cymorth meddygol yn gyflym am symptomau cancer annelwig i gefnogi llwybr atgyfeirio newydd, ac i gefnogi rhoi'r gorau i ysmegu mewn sgrinio am ganser yr ysgyfaint. Ariannwyd y gwaith o brofi'r ymyriadau hyn gan Ymchwil Canser Cymru ac Ymchwil Canser Swydd Efrog, ac mae ganddo'r potensial i wella iechyd y boblogaeth a dylanwadu ar bolisi.

Roedd rhaglen Crwsibl GW4 yn cyd-fynd yn berffaith ag uchelgeisiau proffesiynol Dr McCutchan. Drwy gymryd rhan, roedd modd iddi ehangu effaith ei hymchwil, gan archwilio datrysiadau creadigol a newydd i anghydraddoldebau iechyd a materion cyfiawnder cymdeithasol. Roedd ffocws y rhaglen ar hyfforddiant effaith ac arweinyddiaeth hefyd yn cefnogi ei nod o ddod yn arweinydd ym maes ymchwil gwyddor ymddygiadol, gan fod yn ymroddedig i leihau gwahaniaethau iechyd mewn cancer. Roedd Crwsibl GW4 yn cynnwys labordai preswyl dros ddeuddydd a phedwar dosbarth meistr ar-lein.

Gan fyfyrio ar ei chyfranogiad, meddai Dr McCutchan: "Roedd Crwsibl GW4 yn cynnig llwyfan unigryw i gydweithio gydag ymchwilwyr o ddisgyblaethau cwbl wahanol," meddai. "Mae hyn wedi fy ngalluogi i feddwl yn fwy eang am effaith fy ymchwil a datblygu ymagweddau arloesol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd."

Dr Pam Smith yn sicrhau dyfarniad FLiCR i wella amrywiaeth ym

Mae Dr Pamela Smith, Arweinydd Academaidd Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd WCRC, wedi llwyddo i gael dyfarniad Arweinwyr y Dyfodol mewn Ymchwil Canser (FLiCR), gan sicrhau cyllid o £4,500. Nod y dyfarniad, a gefnogwyd gan y prif fentor Athro Kate Brain a'i chydweithredwr Dr Grace McCutchan, yw gwella amrywiaeth mewn Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd mewn ymchwil ar sail sgrinio, atal a gwneud diagnosis cynnar o ganser (SPED).

Mae prosiect Dr Smith yn canolbwyntio ar sefydlu panel o unigolion â hanes o ysmegu sy'n byw mewn ardaloedd ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel. Bydd y panel hwn yn chwarae rhan hanfodol yn siapiaio cynigion ymchwil a chefnogi astudiaethau parhaus gyda ffocws ar iechyd yr ysgyfaint a materion yn ymwneud ag ysmegu. Mae ymchwil atal a diagnosis cynnar yn hanfodol i wella canlyniadau cancer, ac mae'n faes ymchwil cryf yng Nghymru, fel a nodwyd yn CRESt.

Mae Dr Smith wedi cynnal gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â chyffleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae'r ymateb i'r



Uchod: Dr Pam Smith mewn gweithdy wyneb yn wyneb

"Drwy wneud ymchwil cancer yn fwy cynhwysol a chynrychioladol, gallwn gyflawni canlyniadau iechyd mwy effeithiol a theg"

gweithdai wedi bod yn gadarnhaol hyd yma, gyda nifer o'r rhai a ddaeth yn mynegi diddordeb mewn ymuno â'r panel a bod yn rhan o ymchwil SPED yn y dyfodol. Gyda chefnogaeth gan bartneriaid llewy WCRC (Julie Hepburn a Bob McAlister), mae camau nesaf y gwaith hwn yn cynnwys dod ag aelodau'r panel yn rhan o ddatblygu prosiectau ymchwil parhaus, gan gynnwys gofyn am eu hadborth ar ddogfennau allweddol yr astudiaeth a

chynnal mwy o weithdai cyfranogiad. Mae Dr Smith hefyd yn casglu myfyrdodau gan fynychwyr y gweithdai ac aelodau panel posib i gael gwell dealltwriaeth o'r dulliau gorau o ymgysylltu â chynnal grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn gwaith Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd.

WCRC yn arwain ymchwil radiotherapi yng Nghymru



Academydd Clinigol WCRC yn helpu i adeiladu dyfodol ymchwil radiotherapi yng Nghymru

Dr James Powell yw arweinydd CReSt WCRC ar gyfer radiotherapi. Mae'n rhannu ei syniadau am bwysigrwydd cydweithredu ym maes ymchwil radiotherapi, ledled Cymru.

"Mae hwn yn gyfnod hynod gyffrous a diddorol i fod yn rhan o ymchwil ym maes radiotherapi. Mae datblygiadau technolegol gyda pheiriannau radiotherapi yn caniatáu trin cleifion mewn modd mwy manwl, i fod yn fwy effeithiol a gyda llai o sgil-ffeithiau nag erioed o'r blaen.

Yn driniaeth hirsefydlog ar gyfer canser, mae radiotherapi eisoes yn rhan bwysig o'r driniaeth ymhlith tua 50% o gleifion â chanser. Mae ymchwil ym maes radiotherapi yn ymdrech tîm enfawr; mae ymchwilwyr o lawer o wahanol arbenigeddau yn rhan o'r gwaith, gan gynnwys meddygon, ffisegwyr, radiograffwyr a gwyddonwyr sy'n gweithio, er enghraifft, ym maes geneteg ac imiwnoleg.

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn sicrhau bod effeithiolrwydd triniaeth radiotherapi yn parhau i gael ei wella, er enghraifft drwy gyfuno radiotherapi â thriniaethau eraill

megis cyffuriau wedi'u targedu neu wella manylder radiotherapi drwy ddefnyddio'r technegau delweddu diweddaraf a mwyaf modern a lleihau sgil-ffeithiau posibl. Credwn y bydd datblygiadau yn y meysydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ymchwil ym maes radiotherapi yn y blynyddoedd i ddod.

Mae gan Gymru hanes da o arwain treialon clinigol sy'n asesu effeithiolrwydd triniaethau radiotherapi newydd. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn adeiladu'r Ganolfan Ganser newydd yn Felindre a chanddi ystod o offer radiotherapi o'r radd flaenaf. Mae hwn yn gyfnod hynod gyffrous ar gyfer datblygu radiotherapi yng Nghaerdydd a Chymru, ac mae'n cynnig potensial i'r offer a'r dechnoleg newydd hon fod o fudd i gleifion ledled Cymru.

Dros y blynyddoedd nesaf, ein nod yw datblygu'r seilwaith ymchwil ym maes radiotherapi a chefnogi a meithrin cydweithio rhwng ymchwilwyr a chlinigwyr yng Nghymru. Credwn y bydd hyn yn annog syniadau ymchwil newydd ym maes radiotherapi ac yn helpu i ddatblygu ymchwil ym maes radiotherapi

ledled Cymru. Ein nod yw rhoi cyfleoedd ar gyfer cymrodoriaethau clinigol a chefnogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa gydag amser ar gyfer ymchwil ym maes radiotherapi, gan gefnogi datblygiad gyrfa yn y maes. Rydym yn gobeithio cefnogi a datblygu meysydd unigryw o gryfder o ran ymchwil ym maes radiotherapi yng Nghymru, gan ategu ein hanes sefydledig o arwain ym maes ymchwil radiotherapi clinigol. Bydd adeiladu ar y meysydd cryfder hyn yn ein galluogi i fod yn fwy cystadleuol wrth wneud ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys cleifion a'r bobl sy'n gofalu amdanynt wrth ddylunio astudiaethau ymchwil newydd ym maes radiotherapi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n gadarn ar y meysydd ymchwil sy'n bwysig i gleifion a bod cleifion yn parhau i lywio'r astudiaethau ymchwil y maent yn cymryd rhan ynddynt, gan wneud y mwyaf o gyfranogiad cleifion mewn astudiaethau ymchwil ym maes radiotherapi yng Nghymru."

Arweinydd thema radiotherapi CReSt yn sicrhau cyllid newydd i Academi ARC

Mae Dr James Powell, Academydd Clinigol yn WCRC ac Oncolegydd Ymgynghorol yng Nghanolfan Ganser Felindre, wedi arwain ar gais sydd wedi cael cyfanswm o £3 miliwn i sefydlu Academi Gwella Radiotherapi Cymru (ARC). Addawodd Sefydliad Moondance £1.5 miliwn dros bum mlynedd, ac mae Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Felindre wedi cytuno i gyfateb y cyllid hwn, gan gyflawni £3 miliwn i lansio Academi ARC.

Bydd Academi ARC yn rhaglen Cymru gyfan ac yn cefnogi'r arferion gorau mewn radiotherapi drwy ddatblygiadau gwasanaethau clinigol, recriwtio,

datblygu a hyfforddi gweithlu, ac ymchwil radiotherapi clinigol er budd yr holl gleifion sy'n cael radiotherapi yng Nghymru.

Amcanion allweddol Academi ARC fydd gyrru arloesedd mewn triniaeth radiotherapi i gyflawni canlyniadau gwell a gwella ansawdd bywyd a phrofiad y claf, gan ddarparu gofal teg i gleifion canser ledled Cymru. Mae'n fenter a fydd yn manteisio ar ddoniau, brwdfrydedd a chyfleoedd yn y cyfnod hollbwysig hwn ym maes gofal canser, wrth i ni weithio â chydweithwyr ar hyd a lled Cymru.

Meddai Dr James Powell:

"Bydd ARC yn sicrhau bod datblygiadau radiotherapi yn parhau i fod yn rhan allweddol o wella triniaeth canser yng Nghymru, a bydd yn darparu cyfleoedd hyfforddiant i staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth radiotherapi - gan gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw staff o'r ansawdd uchaf i weithio yng Nghymru. Yn bwysicaf oll, bydd Academi ARC yn gwneud gwahaniaeth hanfodol i fywydau llawer o gleifion ledled Cymru, gan leihau amrywiadau ac anghydraddoldebau mewn darpariaeth."



Uchod: Dr James Powell mewn cyfweiliad am ARISTOCRAT gyda newyddion y BBC

Mae cael opsiynau ychwanegol ar gyfer triniaeth i gleifion glioblastoma yn ddatblygiad arwyddocaol Dr James Powell

Hyrwyddo recriwtio cleifion ar dreial clinigol ARISTOCRAT

Mae treial clinigol pwysig ledled y DU sy'n defnyddio cyffur sy'n deillio o ganabis i drin tiwmorau ymosodol ar yr ymennydd bellach wedi'i lansio yng Nghanolfan Ganser Felindre.

Mae'r treial Cam II 3-blynedd o'r enw ARISTOCRAT wedi'i ariannu gan The Brain Tumour Charity ac yn cael ei arwain gan yr oncolegydd ymgynghorol Dr Jillian Maclean yng Nghanolfan Ganser Felindre.

Yn cydweithio â hi mae Dr James Powell, arweinydd y tîm niwro-oncoleg ac Academydd Clinigol WCRC, sy'n chwarae rhan weithredol yn y gwaith o recriwtio cleifion.

Mae'r tîm ymchwil wedi cyrraedd y garreg filltir o gofrestru ei glaf cyntaf, gyda rhagor

o bobl yn barod i ymuno yn y dyfodol agos. Nod y treial yw recriwtio dros 230 o gleifion â glioblastoma o 14 o ysbytai'r GIG ym Mhrydain Fawr yn 2023. Yn rhan o'r treial, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn rhoi i'w hunain y cyffur Nabiximols (Sativex), sy'n deillio o ganabis, neu chwistrelliad plasebo drwy'r geg. Byddant wedyn yn cael apwyntiadau dilynol yn rheolaidd, gan gynnwys profion gwaed a sganiau MRI wedi'u cynnal gan dîm y treial clinigol.

Dywedodd Dr James Powell: "Yn anffodus, mae'r canlyniadau i gleifion â glioblastoma di-baid yn parhau i fod yn wael. Felly, mae gallu cynnig y treial pwysig hwn i'r cleifion hyn yn galonogol iawn. Mae gallu cynnig triniaethau ychwanegol i'r cleifion hyn yn bwysig, ac mae'r treial hwn hefyd yn

mynd i'r afael â'r cwestiwn clinigol pwysig ynghylch y defnydd o feddyginiaeth sy'n seiliedig ar ganabis i drin cleifion â thiwmorau ar yr ymennydd. Glioblastoma yw'r math mwyaf ymosodol o ganser yr ymennydd ac, fel arfer, mae cleifion yn byw llai na 10 mis ar gyfartaledd ar ôl i'r canser ddychwylyd. Mae canlyniadau calonogol treial Cam I yn 2021, a oedd yn cynnwys 27 o gleifion, yn dangos bod Nabiximols, pan fydd wedi'i gyfuno â chemotherapi, yn cael ei oddef yn dda gan gleifion a bod ganddo'r potensial i ymestyn bywydau cleifion â glioblastoma di-baid."

WCRC yn buddsoddi mewn ymchwil fiowybodeg a data cancer yng Nghymru

Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud mewn menter sydd â'r nod o ddeall y data sydd ar gael yng Nghymru a gwella ei ddefnydd ar gyfer ymchwil cancer. Ers mis Tachwedd, mae ymchwilwyr WCRC, Dr Laura Baker a Dr Arron Lacey, wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall y data cancer sydd ar gael yn y Banc Data Cysylltu Gwybodaeth Ddiennw'n Ddiogel (Banc data SAIL). Mae eu gwaith yn cynnwys coladu metadata a gwybodaeth gyhoeddus o ffynonellau amrywiol a chynllunio gwaith dadansoddi archwiliadol i ddrafftio cyfres o allbynnau 'eglwad o'r data'. Nod yr allbynnau hyn yw darparu sylfaen gref i ymchwilwyr sydd â diddordeb mewn data cancer ar lefel y boblogaeth yng Nghymru.

Mae'r adolygiad archwiliadol hwn o'r data cancer bellach wedi cael cymeradwyaeth gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) annibynnol SAIL. "Nawr bod gennyn ni'r gymeradwyaeth ar gyfer prosiect SAIL, rydw i wedi dechrau cymhwyso fy ngwybodaeth i'r data y mae

gennyn ni fynediad ato, a datblygu drafft o'r allbynnau eglurhad o'r data cychwynnol," meddai Dr Baker. "Byddwn yn gofyn am y wybodaeth hon o amgylchedd ymchwil dibynadwy (TRE) SAIL pan fydd yn barod, ac ar ôl cael ein cymeradwyo yn dilyn y broses rheoli datgelu SAIL safonol, gellir ei rhannu ar draws y grŵp a gyda'r cyhoedd."

Mae recriwtio Dr Baker a Dr Lacey a'u datblygiad fel gwyddonwyr data cancer yn rhan o gynllun WCRC i gefnogi ac ehangu'r defnydd o ddata cancer yng Nghymru, mewn cydweithrediad â Banc data SAIL a'r grŵp Gwyddorau Data Poblogaeth ym Mhrifysgol Abertawe gyda'r Athro Ashley Akbari a Simon Thompson. "Rydyn ni'n adeiladu sylfaen wybodaeth gynhwysfawr ar ddata cancer Cymru," ychwanegodd Dr Baker. "Rydyn ni'n gobeithio dosbarthu'r wybodaeth hon i annog ymchwil bellach yn y gymuned ymchwil cancer yng Nghymru a thu hwnt."

Mae'r fenter hon yn addo gwella ansawdd

a hygyrchedd data cancer, gan feithrin ymchwil fwy dylanwadol. Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, ei nod yw cyfrannu gwybodaeth werthfawr i dueddiadau a chanlyniadau cancer, ac yn y pen draw llywio strategaethau iechyd y cyhoedd a gwelliannau posib i wasanaethau a gofal cleifion yng Nghymru a thu hwnt.

"Rydyn ni'n adeiladu sylfaen wybodaeth gynhwysfawr ar ddata cancer Cymru i annog rhagor o ymchwil yn y gymuned ymchwil cancer yng Nghymru a thu hwnt"
Dr Laura Baker

Penodi Biowybodegydd craidd CReSt i gefnogi ac uwchsgilio ymchwilwyr cancer yng Nghymru

Penodwyd Dr Alex Gibbs yn fiowybodegydd craidd Strategaeth Ymchwil Cancer Cymru (CReSt) yn WCRC. Arbenigwr ym maes ymchwil cancer yw Alex sy'n canolbwyntio ar ganser y croen ac mae ganddo brofiad amhrisiadwy ym maes dilyniannu RNA a dadansoddi biowybodeg dilyniannu RNA un gell.

Yn y swydd newydd hon, nod Alex yw cefnogi ymchwilwyr cancer ledled Cymru o ran eu hanghenion biowybodeg. Y prif amcan yw gwella sgiliau ymchwilwyr a rhoi iddyn nhw'r offer angenrheidiol i ddadansoddi data yn effeithiol. Bydd y cymorth hwn yn cael ei roi mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cyfeirio ymchwilwyr at adnoddau dysgu perthnasol ac addysgu ymarferol a thiworialau.

Daeth cyllid y swydd graidd hon i law drwy Gronfa Gatalytig CReSt 2023-25 WCRC, gan adlewyrchu ymrwymiad y Ganolfan i ddatblygu cymuned biowybodeg cancer Cymru, a fydd yn gwella gwaith ar draws holl themâu CReSt.

Dyma a ddywedodd Alex: "Mae yna lu o ddata cancer sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n aros i gael ei ddefnyddio gan ymchwilwyr cancer eraill. Yn sgil y data hwn, mae'n bosibl y bydd ymchwilwyr yn gallu ateb eu cwestiynau ymchwil heb orfod gwneud y dilyniannu eu hunain. Efallai y bydd pobl nad oes ganddyn nhw'r profiad angenrheidiol i ddadansoddi'r data cyhoeddus hwn yn cael eu digalonni gan y bydd weithiau'n dasg frawychus. Fodd bynnag, rwy yma i helpu yn hyn o beth!"

Wrth edrych ymlaen, mae Alex yn rhagweld dyfodol pan fydd ymchwilwyr cancer yng Nghymru yn gallu cynnal eu dadansoddiadau biowybodeg, gan gynnwys biowybodeg yn ddi-dor yn rhan o'u hymchwil. Mae'n gobeithio y bydd y cymorth y mae'n ei roi yn annog ymchwilwyr i gynnwys biowybodeg yn rhan o geisiadau grant y dyfodol, gan baratoi'r ffordd yn y pen draw ar gyfer rhagor o gyllid.



Uchod: Dr Alex Gibbs

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hyn, mae Alex yn adeiladu rhwydwaith i Gymru o fiowybodegwyr cancer, i rannu arbenigedd a chynrychioli Cymru mewn rhwydweithiau cancer rhyngwladol drwy Rhwydwaith Biowybodeg Cancer Cymru.



Lansio Rhwydwaith Biowybodeg Cancer Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Rhwydwaith Biowybodeg Cancer Cymru ar 20 Mawrth 2024, gan nodi dechrau taith gydweithredol i hyrwyddo ymchwil cancer drwy fiowybodeg.

Daeth y cyfarfod â 25 o bobl at ei gilydd o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, a Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS - y GIG). Aeth y cyfranogwyr ati i rannu eu cefndiroedd ym maes biowybodeg a mynegi eu disgwyliadau gan y rhwydwaith gan ddefnyddio offer rhyngweithiol megis Mentimeter a sesiynau bwrdd gwyn.

Cafwyd trafodaethau allweddol ynghylch sut y dylai'r grŵp weithio. Pennwyd map ffordd ar gyfer gwaith y dyfodol, gan ganolbwyntio ar feithrin cydweithio, darparu hyfforddiant ac addysg, trefnu digwyddiadau wyneb-yn-wyneb a rithwir, rhannu adnoddau, gwella cyfathrebu a rheoli data'n effeithiol.

Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol creu lle cymunedol ar-lein ar gyfer cyfathrebu a chynnwid gwybodaeth. O ganlyniad, mae grŵp Slack (ap negeseuon) â sianeli lluosog ar gyfer diddordebau gwahanol

wedi'i greu.

Yn ogystal, trafododd y grŵp nifer o fentrau newydd, gan gynnwys:

- ◆ □ cynnal pedwar digwyddiad blynyddol, lle bydd siaradwyr blaenllaw a thrafodaethau amserol i gyfoethogi arbenigedd
- ◆ □ dechrau clinig biowybodeg wythnosol, gan gynnig plattform pwrpasol i aelodau geisio cymorth, mynd i'r afael â heriau a rhannu gwybodaeth
- ◆ □ cynnal sesiynau hyfforddi cynhwysfawr a chlinigau data un-i-un, gyda'r nod o rymuso aelodau o bob gallu a datblygu sgiliau
- ◆ □ creu llwybrau ar gyfer ymgeisio am grantiau a chynnig cymorth wrth baratoi cais am grant, gan gynnwys hwylyso cyflawni amcanion ymchwil yn y rhwydwaith

Dywedodd Alex Gibbs, biowybodegydd craidd CReSt ac arweinydd y rhwydwaith:

"Roedd cyfarfod cyntaf WCBN yn llwyddiant ysguboll! Ymunodd nifer fawr â'r cyfarfod, a bu llawer o ymgysylltu. Trafodwyd sut rydyn ni am i'r rhwydwaith

weithio, a chynigiwyd 'fordd ymlaen'. Ers hynny, rydw i wedi sefydlu grŵp Slack ar gyfer y rhwydwaith, fydd yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau'r rhwydwaith."

Mae'r rhwydwaith ar agor i unrhyw un sy'n dadansoddi data cancer yn ystod eu hymchwil, gan gynnwys myfyrwyr PhD, sy'n awyddus i ddysgu mwy neu wneud cysylltiadau ym maes biowybodeg.

Rydyn ni am i'r rhwydwaith hon annog cydweithio a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, gan gynrychioli Cymru mewn rhwydweithiau cancer rhyngwladol"
Dr Alex Gibbs



GWYLIWCH Y FIDEO



YMUNWCH AG

WCRC yn meithrin twf a chysylltedd mewn gyrfaedd ymchwil



Dr Andrew Pierce
Darlithydd Meddygaeth Fanwl
Canser, (Thema 1 CRest)
Prifysgol Bangor

Un o fy llwyddiannau mwyaf nodedig oedd astudiaeth a gyhoeddwyd yn Nature yn 2016. Roedd yr ymchwil "o'r labordy i erchwyn y gwely" hon yn defnyddio sgrin broteomig o gelloedd cenedlyddol liwcaemig cynradd, gan arwain at nodi iachâd posib ar gyfer lewcmia myeloid cronig (CML). Symudodd y darganfyddiad at dreial clinigol cam 2 (CRUK/17/016 TASTER), gan nodi carreg filltir arwyddocaol ym maes ymchwil bôn-gelloedd cancer.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, mae methodolegau tebyg wedi datgelu triniaethau posib ar gyfer cyflyrau heriol eraill. Yn Leukemia (2017), adroddon ni ganfyddiadau addawol ar gyfer Polycythemia vera, gyda datblygiadau sylweddol mewn Lewcemia Myelomonocytig Plant (JPR, 2020) ac astudiaeth effeithiol arall ar CML (PlosOne, 2022).

Yn 2019, datgelodd astudiaeth a gyhoeddwyd yn Hemasphere botensial i ail-bwrpasu cyffur BGB324 ar gyfer trin neoplasmau myelo-luosogol (MPNs). Arweiniodd y canlyniadau cymhellol at ddatblygwyr y cyffur yn ymchwilio i'w effeithiolrwydd ymhellach, gan arwain at astudiaeth yn 2021 a argymhellodd dreialon clinigol ar gyfer trin MPN.

Y tu hwnt i therapïau cancer, mae fy ngwaith ym maes darganfod biofarcwyr hefyd wedi bod yn werth chweil. Mae canfod cancer yn gynnwys yn hanfodol ar gyfer gwella canlyniadau, yn enwedig

ar gyfer cancer endometriaid, sef y malaenedd gynaecolegol mwyaf cyffredin mewn gwledydd incwm uchel ac sy'n bryder sylweddol yng Nghymru. Mae astudiaethau diweddar a gyhoeddwyd yn eBioMedicine (2024) a British Journal of Cancer (2023) wedi nodi biofarcwyr posib mewn hylif serffigol-faginol, wrin, a phlasma, ac mae'n cael ei ddilysu ar hyn o bryd ar gyfer prawf canfod cancer endometriaid anymyrrol.

"Yn ddiweddar, symudais i Sefydliad Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin ym Mhrifysgol Bangor. Gall symud ac ailsefydlu rhaglen ymchwil weithredol fod yn frawychus, ond mae WCRC wedi bod yn allweddol wrth hwyluso'r trawsnewid hwn. Maen nhw wedi hwyluso rhwydweithiau newydd yng Nghymru ac mae'r gymuned ymchwil amrywiol yn WCRC wedi agor drysau i gyfleoedd newydd a chyffrous i gydweithio, gan wella ein gallu i oresgyn cancer".

"Mae WCRC wedi hwyluso rhwydweithiau newydd yng Nghymru, sydd wedi agor drysau i gyfleoedd newydd a chyffrous i gydweithio"
Dr Andrew Pierce



Uchod: Dr Andrew Pierce yn cyflwyno ei ymchwil ar Ddiwrnod Rhwydweithio i Ymchwilwyr WCRC



Dr Ashley Poon-King
Cymrawd Ymchwil Glinigol
(Thema 3 CReSt)
Felindre/Prifysgol Caerdydd

"Ar hyn o bryd rwy'n gofrestru oncoleg glinigol ST7 ac yn ymchwilydd yn WCRC. Ar ôl mudo o Trinidad a Tobago yn 2007, cefais fy ngradd meddygaeth ag anrhydedd o Brifysgol Birmingham yn 2012. Gwnes i fy hyfforddiant meddygol sylfaenol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, ac yn 2014, symudais i dde Cymru i orffen fy hyfforddiant meddygol craidd cyn dechrau ar fy hyfforddiant fel cofrestru oncoleg glinigol yn 2016.

Un garreg filltir nodedig yn fy ngyrfa oedd cael cyllid WCRC, sydd wedi fy ngalluogi i wasanaethu fel cymrawd ymchwil

glinigol mewn radiotherapi, genomeg, ac imiwnoleg gan wneud fy ngradd MD 2 flynedd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae fy ymchwil yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng hyd telomerau, gweithrediad, a chanlyniadau clinigol mewn cleifion cancer y pen a'r gwddf. Mae telomerau, sef y capiau amddiffynnol ar ddiwedd cromosomau, yn gallu cael eu byrhau'n sylweddol a dod yn gamweithredol mewn cancer, gan arwain at ansefydlogrwydd genomig a gyrru cynnydd y cancer. Mae fy mhrosiect hefyd yn archwilio sut mae radiotherapi yn effeithio ar hyd telomerau liwcosytau, a allai fod yn ddynodydd heneiddio imiwnedd.

Yn ogystal â fy ymchwil, rwy'n ymroi un diwrnod yr wythnos i Ganolfan Ymchwil Canser Caerdydd, gan ddarparu cymorth clinigol ar gyfer treialon haematoleg a thiwmorau solet yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r rôl hon wedi rhoi cyfle i fi gydweithio gyda thimau treialon cam cynnar a haematoleg, gan gyfoethogi fy mhrofiad dylunio a chynnal treialon clinigol.

Ers ymuno ag WCRC, rydw i wedi cael sawl cyfle i wella fy sgiliau clinigol ac ehangu fy ngorwelion ymchwil. Ym mis Ionawr, cefais y fraint o gael fy newis ar gyfer Grŵp Rhwydwaith Ymchwilwyr Ifanc (JING) ECMC blynyddol ym Manceinion. Roedd y cwrs preswyl hwn yn hanfodol wrth ddyfnhau fy nealltwriaeth o ddylunio treialon cam cynnar a'r broses ymgeisio am grantiau. Darparodd JING lwyfan gwerthfawr i rwydweithio gyda chyd-

enwebeion o Gaerdydd a ledled gwledydd Prydain. Roedd cyfarfod a chael ein cefnogi gan gyfadran anhygoel o arbenigwyr, yn cynnwys grŵp amlddisgyblaethol o ymchwilwyr clinigol ac anghlinigol, yn brofiad hynod gyfoethog.

Yn ogystal, mae WCRC wedi rhoi cyfle i fi ymgysylltu â'r gymuned a hyrwyddo ymchwil cancer fel llwybr gyrfa. Yn ddiweddar, cymerais ran yn nigwyddiad 'Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd yn Fyw!' Ysgol Meddygaeth Caerdydd, lle bŵm i'n rhyngweithio gyda disgyblion blwyddyn 12 o bob rhan o Gymru, gan gynnig arweiniad ac ysbrydoliaeth iddyn nhw ar gyfer eu gyrfaedd nhw. Rydw i hefyd yn edrych ymlaen at gael croesawu disgyblion chweched dosbarth i raglen profiad gwaith In2STEM ym mis Gorffennaf, sydd â'r nod o roi cymorth gyrfa a chyfleoedd o ansawdd uchel i bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae fy nodau uniongyrchol yn cynnwys gorffen fy mhrosiect MD a chyflwyno fy nhraethawd ymchwil, gyda'r gobaith o gyfrannu cyhoeddiadau gwerthfawr i faes oncoleg. Rydw i hefyd yn bwriadu parhau i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu Canolfan Ymchwil Canser Caerdydd, gan anelu at wella ein dealltwriaeth a'n triniaeth cancer."



"Mae WCRC wedi rhoi cyfle i fi ymgysylltu gyda'r gymuned a hyrwyddo fy ymchwil fy hun ac ymchwil cancer fel gyrfa"
Dr Ashley Poon-King

Uchod: Dr Ashley Poon-King (cefn) gyda thim VITAL yn helpu digwyddiad ymgysylltu STEM, Gwyddoniaeth ym Maes Iechyd yn Fyw!

WCRC yn meithrin twf a chysylltedd mewn gyrfaedd ymchwil



Dr Namrata Rastogi
Ymchwil Draws-Thema
Aelod Cyswilt
Prifysgol Caerdydd

"Dechreuodd fy ngyrfa academaidd yn y Sefydliad Ymchwil Cyffuriau Canolog (CDRI) yn India, lle gwnes i PhD a oedd yn canolbwyntio ar agweddau trosiadol sgrinio cyffuriau. Taniodd y profiad hwn fy niddordeb mewn cysylltu bioleg moleciwlaidd â manteision diriaethol i'r claf. Ar ôl fy PhD, gwnes gymrodoriaeth ôl-ddoethurol fer ym Mhrifysgol Meddygaeth Brenin George, lle ymchwiliis i microRNAs fel biofarcwyr ar gyfer ymwrthedd cancer y fron.

Yna symudais i Brifysgol Caerdydd, i ymchwilio i ddatblygiad celloedd y gwaed ac ymchwil cancer. Mae fy ngwaith yng Nghaerdydd wedi arwain at ddatblygiadau mawr, gan gynnwys nodi Ffactor Niwclear I-C (NFIC) mewn Lewcemia Myeloid Aciwt (AML). Gan geisio ehangu fy rhwydwaith ymchwil annibynnol a meithrin sgiliau newydd, ymunais â Sefydliad Ymchwil Bôn-gelloedd Cancer Ewropeaidd (ECSCRI) ym Mhrifysgol Caerdydd fel Cydymaith Ymchwil mewn ymchwil AML. Mae fy mhrosiectau diweddar, gyda chefnogaeth WCRC, wedi fy ngalluogi i ddatblygu fy syniadau ymchwil fy hun a chynhyrchu data rhagarweiniol ar gyfer cymrodoriaethau ymchwil uwch yn y dyfodol, gyda'r nod yn y pen draw o sefydlu fy labordy fy hun sy'n canolbwyntio ar Therapiwteg Droisiadol AML.

Fel Ymchwilydd ar Ddechrau Gyrfa mewn bioleg cancer, gyda naw mlynedd

o gefndir, mae fy nghyfraniadau'n ehangu tu hwnt i'r labordy, gyda'r nod o ddylanwadu ar y gymuned wyddonol ac ar gymdeithas. Mae fy ymchwil drosi gyda'r claf yn ganolog iddo yn canolbwyntio ar feddygaeth fanwl, gan bontio bioleg foleciwlaidd a chanlyniadau i gleifion. Ar hyn o bryd, rwy'n defnyddio AML, sef math ymosodol ac angheuol o ganser y gwaed, fel fy system fodel. Mae'r afiechyd hwn yn effeithio ar boblogaethau hyn yn bennaf, ac mae'r canlyniad yn aml yn wael.

Mae fy ymchwil i'n adnabod moleciwlau sy'n gyffredin mewn celloedd cancer sy'n hanfodol i'w twf a'u goroesiad. Gall deall y moleciwlau hyn arwain at ddatblygu therapïau wedi'u targedu sy'n lladd celloedd cancer, gan arbed celloedd normal. Nod y dull hwn yw darparu opsiynau gwell ar gyfer triniaethau a gweila cyfraddau goroesi ar gyfer cleifion sy'n aml ddim yn addas ar gyfer therapïau cyfredol, gan sicrhau bod gan bob glaf yr un cyfle i gael triniaeth o ansawdd uchel.

Mae'r cyllid ar y cyd dros ddwy flynedd gan WCRC wedi bod yn allweddol i fy ngyrfa. Mae wedi galluogi cynnydd sylweddol yn fy mhrosiect parhaus ar actifadu TET2 mewn AML gan ddefnyddio gweithydd newydd sydd mewn camau datblygedig, ac mae disgwyl iddo arwain at erthygl ymchwil o ansawdd uchel. Mae cyllid WCRC hefyd wedi hwyluso'r gwaith o ddatblygu syniadau ymchwil newydd yn archwilio NFIC fel biofarcwr neu darged therapiwtig mewn AML, ac wedi helpu i ffurfio rhwydweithiau newydd, gan gynhyrchu data rhagarweiniol ar gyfer fy nghymrodoriaethau ymchwil.

Y tu hwnt i allbynnau ymchwil, mae cymorth WCRC hefyd wedi cyfrannu at fy natblygiad proffesiynol a fy ngyrfa. Cymerais ran yn rhaglen Arweinyddiaeth Elevate ar gyfer menywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol ym Mhrifysgol Caerdydd, lle dysgais bwysigrwydd hunanfyfrio a hunanhyder, sy'n hanfodol ar gyfer swyddi arwain. Cefais hefyd dystysgrif addysgu Cymrawd Cyswilt gan yr Academi Addysg Uwch, gan wella fy sgiliau addysgu ar gyfer gyrfa academaidd yn y dyfodol. Yn ogystal, bûm yn chweched Gynhadledd Ryngwladol ar Lewcemia Myeloid Aciwt ym Mhortiagal (2023), lle cwrddais i â chlinigwyr ac ymchwilyddwyr adnabyddus ym maes AML, gan arwain at gydweithrediad

newydd gyda'r Athro Caroline Heckman o'r Ffindir, sy'n arbenigwr blaenllaw mewn meddygaeth fanwl AML.

Mae WCRC hefyd wedi cefnogi fy ngweithgareddau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI), gan fy ngalluogi i gymryd rhan mewn digwyddiadau rhwydweithio ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r rhyngweithiadau hyn wedi fy helpu i fframio cwestiynau ymchwil perthnasol, sy'n hanfodol ar gyfer fy ymdrechion ymchwil yn y dyfodol.

Fy nghynllun ar gyfer y dyfodol yw gwneud cais am gymrodoriaethau ymchwil canolradd ac uwch i sefydlu fy ngrŵp ymchwil fy hun ym maes therapiwteg droisiadol AML yn ECSCRI, Prifysgol Caerdydd. Rydw i eisoes wedi gwneud cais am Gymrodoriaeth Uwch Ymchwil lechyd a Gofal Cymru (Ionawr 2024) ac wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad. Yn ogystal, rwy'n bwriadu gwneud cais am gymrodoriaethau fel y Dyfarniad Datblygu Gyrfa a gyd-ariennir gan y Cyngor Ymchwil Feddygol a Blood Cancer UK. Drwy'r cyfleoedd hyn, fy nod yw parhau i wneud cyfraniadau effeithiol i ymchwil cancer a gofal cleifion."

"Mae cefnogaeth WCRC wedi fy ngalluogi i gymryd rhan yn rhaglen Arweinyddiaeth Elevate ar gyfer menywod o gymunedau ethnig leiafrifol"
Dr Namrata Rastogi

Dr Kevin Norris
Cydymaith Ymchwil
(Thema 1 CRESt)
Prifysgol Caerdydd

Dr Kate Liddiard
Darlithydd genomeg cancer
(Thema 1 CRESt)
Prifysgol Caerdydd



"Mae WCRC wedi rhoi cyfle i fi ryngweithio a gweithio ochr yn ochr â phobl sydd wedi'u gwreiddio ym mhob cam o ofal cleifion."
Dr Kate Liddiard

Uchod: Dr Kevin Norris (chwith) a'r Athro Duncan Baird

Ym maes datblygol genomeg cancer, mae dau o ymchwilyddwyr WCRC yn cymryd camau breision. Mae Dr Kevin Norris a Dr Kate Liddiard, sydd ill dau ym Mhrifysgol Caerdydd, yn gyrru dealltwriaeth a thriniaeth cancer yn ei blaen drwy ymagweddau arloesol ym maes bioleg telomerau a thechnolegau genomeg.

Dechreuodd Dr. Kevin Norris ei yrfa ymchwil gyda gradd PhD yn y grŵp bioleg telomerau ym Mhrifysgol Caerdydd, lle bu'n ymchwilio i sut mae strwythur cromosomaidd yn effeithio ar hyd telomerau. Gosododd yr ymchwil hon y sylfaen ar gyfer ei waith ôl-ddoethurol, a ddangosodd y gellid defnyddio hyd telomerau fel marcwr rhagfynegol mewn cancer, yn enwedig mewn lewcemia lymffosytig cronig (CLL). Roedd ei ganfyddiadau'n dangos y gallai cleifion CLL hefyd gael eu haenu yn wahanol gategoriâu goroesi yn seiliedig ar hyd eu telomerau, hyd yn oed ar gamau cynnar y clefyd. At hynny, canfuwyd bod hyd telomerau'n rhagfynegi ymatebion i driniaeth mewn cleifion CLL.

Gan adeiladu ar y darganfyddiadau hyn, datblygodd Dr Norris STELA (HT-STELA) Trwybwn Uchel, sef technoleg sy'n darparu mesuriadau hyd telomerau cyflym a manwl. Mae HT-STELA, sydd wedi'i batentu a'i fasnacheiddio drwy gwmni deillio Prifysgol Caerdydd, TeloNostiX, wedi chwyldroi diagnosteg glinigol gyda'i gapasiti uchel a'i amser trosiant cyflym. Cafodd y dechnoleg achrediad ISO17025 ac mae bellach yn cael ei defnyddio i wneud diagnosis o anhwylderau bioleg delomerau (TBD) fel dyskeratosis congenita a methiant mēr esgyrn. Mae llwyddiant HT-STELA wedi golygu bod labordy TeloNostiX yn derbyn samplau cleifion o wledydd Prydain, Ewrop, a chyn

belled â Seland Newydd ac Awstralia.

Dywedodd Dr Norris: "Mae WCRC wedi bod yn amhrisiadwy i ddatblygiad fy ngyrfa. Rwy'n cael boddhad mawr yn y ffaith bod HT-STELA yn galluogi'r profion telomerau cyflymaf mewn cleifion TBD y GIG unrhyw le yn y byd ac yn effeithio ar eu diagnosis a phenderfyniadau ynghylch eu triniaeth. Fyddai hyn ddim wedi bod yn bosib heb yr adnoddau a'r cymorth mae WCRC wedi'u darparu." Bydd Dr Norris yn symud ymlaen i gyflogaeth lawn amser gyda TeloNostiX yn 2025, gyda'r nod o archwilio a allai hyd telomerau ddarparu gwybodaeth ddiagnostig neu brognostig mewn clefydau eraill, gan gynnwys mathau ychwanegol o ganser a chlefydau interstiaidd yr ysgyfaint, fel ffibrosis ysgyfeiniol.

Mae gan Dr Kate Liddiard, uwch wyddonydd ôl-ddoethurol yng ngrŵp ymchwil telomerau'r Athro Duncan Baird, gefndir mewn imiwnoleg gardiofasgwlaidd o Brifysgol Rhydychen. Yn labordy'r Athro Baird, mae Dr Liddiard wedi datblygu dulliau arloesol o astudio camweithrediad telomerau a'i ganlyniadau genomig. Un o'i llwyddiannau nodedig yw dylunio mecanweithiau moleciwlaidd newydd i dargedu toriadau DNA i ddilyniannau sy'n agos i delomerau, sydd wedi datblygu gallu ymchwil y grŵp yn sylweddol. Mae ei gwaith wedi arwain at sawl cyhoeddiad effaith uchel ac wedi cyfrannu at geisiadau mawr am grantiau, gan gynnwys grant rhaglen pum mlynedd a ariannwyd gan Ymchwil Cancer y DU.

Mae Dr Liddiard hefyd wedi dechrau piblinellau biowybodeg a dilyniannu genomeg eglur iawn i nodi a nodweddu ailgyfuniadau prin sy'n cael eu gyrru gan delomerau mewn cancer. Mae'r gwaith

hwn wedi cynnwys cydweithrediadu gyda Pharc Geneteg Cymru, yn ogystal ag ymchwilyddwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu methodolegau dilyniannu ar gyfer ymchwiliadau newydd. Mae ei phrosiectau newydd yn cynnwys trosi dulliau genomeg yn allbynnau trosiadol er budd cleifion cancer. Drwy gyfuno dulliau dilyniannu amrywiol, ei nod yw datgelu arwyddion moleciwlaidd sy'n gallu bod yn fiofarcwyr cancer, gan hwyluso diagnosis cynnar a haenad triniaeth mwy effeithiol.

Mae ymchwil Dr Liddiard ar y cyflwr argyfwng mewn samplau celloedd dynol a chleifion cancer wedi datgelu gwybodaeth hollbwysig i ansefydlogrwydd genomig a'i rôl mewn datblygiad cancer. Drwy nodweddu mecanweithiau atgyweirio DNA a rhyngweithiadau telomerau, mae'n paratoli'r ffordd ar gyfer ymyriadau therapiwtig wedi'u targedu a chanlyniadau clinigol gwell.

Meddai Dr Liddiard "Mae bod yn rhan o WCRC wedi rhoi cyfle pwysig i fi ryngweithio a gweithio ochr yn ochr â phobl sy'n rhan greiddiol o bob cam o ofal cleifion. Mae hyn yn cynnig mewnwelediad i fecaneg gofal iechyd oncoleg, a fydd yn llywio cwestiynau ymchwil fwy perthnasol, yn ogystal â mynediad at samplau cleifion, data ac arbenigedd. Rwy'n credu'n gryf y bydd hyn yn dylanwadu ac yn ysgogi ymchwil newydd gyda budd trosiadol uwch ac yn hwyluso fy natblygiad tuag at annibyniaeth wyddonol."

Cefnogaeth i'n mentrau ymchwilwyr a ariennir ac Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa



"Roedd hi'n wych cael clywed am yr ystod eang o ymchwil sy'n cael ei chefnogi gan WCRC, rhwydweithio gydag ymchwilwyr eraill a chlywed gan y Cyfarwyddwr" (Dienw)

Uchod: Dr Stephanie Burnell, Cydymaith Ymchwil Imlwino-oncoleg yn cyflwyno crynodeb o'i gwaith yn Niwmod Rhwydweithio i Ymchwil WCRC

Diwrnod Rhwydweithio i Ymchwilwyr WCRC 2024

Mae Diwrnod Rhwydweithio i Ymchwilwyr WCRC yn dod ag ymchwilwyr sy'n cael eu hariannu gan WCRC at ei gilydd o bob rhan o Gymru, gyda chyfle unigryw iddyn nhw arddangos eu gwaith, ymgymryd â thrafodaethau ystyrlon, ac archwilio cydweithrediaidau posibl.

Dechreuodd digwyddiad 2024 gyda chyfres o gyflwyniadau, gyda phob ymchwilydd yn cael y dasg o grynhoi eu gwaith, gyda sesiwn holi ac ateb fywiog i ddilyn i archwilio eu hymchwil yn ddyfnach ym mhob un o themâu CRESt.

Un o brif uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd nodi meysydd lle gallai cydweithio fod yn bosibl. Bu i'r ymchwilwyr, sy'n aml yn gweithio ar brosiectau unigol, ganfod tir cyffredin ac agweddau ategol i'w gwaith, gan danio syniadau ar gyfer prosiectau ar y cyd yn y dyfodol.

Cynigiodd y sesiynau rhwydweithio oedd yn rhan o'r diwrnod ddigon o amser ar gyfer y trafodaethau hyn, gyda llawer o'r rhai a oedd yn bresennol yn mynegi cyffro ynghylch y cyfle i wella eu hymchwil drwy

bartneriaethau newydd.

Yn ogystal â'r cyflwyniadau gan ymchwilwyr, roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys sawl cyfraniad nodedig. Rhoddodd tim Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) WCRC gyflwyniad diddorol ar bwysigrwydd cynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn prosesau ymchwil, gan bwysleisio sut gall eu safbwyntiau gyfoethogi astudiaethau gwyddonol a chanlyniadau.

Roedd presenoldeb sylweddol gan Biofanc Canser Cymru yn y digwyddiad hefyd. Amlygodd eu cyflwyniad y rôl hanfodol mae biofanciau'n ei chwarae mewn ymchwil cancer, gan ddarparu adnoddau gwerthfawr i wyddonwyr. Dysgodd y mynychwyr hefyd am ddatblygiadau diweddaraf y biofanc, a sut gallan nhw gael mynediad at yr adnoddau hyn i gryfhau eu hymdrechion ymchwil eu hunain.

Roedd sesiwn ryngweithiol dan arweiniad Dr Laura Thomas o Brifysgol Abertawe yn uchafbwynt arall, yn enwedig i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.

Rhannodd Dr Thomas nifer o adnoddau a strategaethau i gefnogi ymchwilwyr i lywio camau cynnar eu gyrfaoedd.

Cwblhawyd arolwg Mentimeter yn ystod y sesiwn i asesu'r heriau mae ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn eu hwynebu ym maes ymchwil cancer yng Nghymru, ac i bennu cyfleoedd ar gyfer cymorth drwy WCRC a thu hwnt.

Cymerodd 16 o bobl ran yn yr arolwg, gyda 75% o'r cyfranogwyr o gefndir anghlinigol a'r 25% arall o gefndir clinigol. Roedd y prif heriau sy'n wynebu Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa yng Nghymru yn cynnwys cael cyllid, diogeledd swydd (contractau tymor byr, symud grwpiau ymchwil, cyllid). Amlygwyd cael mentoriaeth ystyrlon hefyd fel blaenoriaeth i Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa WCRC (Ffigur 1).



Ffigur 1: Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth yw'r prif heriau rydych chi'n teimlo eich bod yn eu hwynebu fel Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa?'

Sut gall WCRC fynd i'r afael â heriau Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa?

Mae Dr Laura Thomas yn rhannu ei syniadau:

Er bod darparu cyllid hirdymor i Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa y tu allan i gylch gwaith WCRC, gall y Ganolfan gynorthwyo'n anuniongyrchol â chynnydd hirdymor Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa drwy ddarparu cymorth i lywio'r heriau a nodwyd. Nod WCRC yw meithrin a chadw doniau, yn ogystal â denu'r ymchwilwyr gorau i Gymru.

Dim ond trwy ddarparu amgylchedd sy'n meithrin datblygiad ymchwilwyr, a fydd yn dod yn arweinwyr y dyfodol mewn ymchwil cancer, y gallir cyflawni hyn. Ni ddylai cefnogaeth gan WCRC yn ystod tymor ariannu ganolbwyntio ar ganlyniadau prosiect yn unig, ond dylai hefyd sicrhau bod yr ymchwilydd mewn sefyllfa gystadleuol i sicrhau cyllid neu swyddi parhaol pan fydd

y cyfleoedd hyn yn codi. Ni ddylai'r cymorth hwn ddyblygu ymdrechion sydd eisoes yn bodoli, a dylai fod yn gwbl ginhwysol a pharchu'r gymuned amrywiol o Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa yn WCRC. Gallai cymorth ystyrlon a chyfleoedd datblygu gynnwys:

1. Cynllun mentora cyn-fyfyrrwyr WCRC neu gysylltu â mentrau mentora gwych sydd eisoes yn bodoli ledled y Deyrnas Unedig (Cymdeithas Ddysgedig Cymru, ECRC y DU, Academi'r Gwyddorau Meddygol) i ddarparu cymorth diduedd ar gyfer datblygu gyrfaoedd Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa.
2. Datblygu rhwydwaith cryf o Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa i feithrin cymuned ymchwil cancer ar gyfer cymorth gan gyfoedion i Ymchwilwyr ar Ddechrau eu

Gyrfa yn WCRC. Nid yn unig y byddai hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a chydweithio rhyngddisgyblaethol, ond byddai hefyd yn dod ag ymchwilwyr at ei gilydd i gefnogi ei gilydd.

3. Bydd rhaglen o gyfleoedd hyfforddi a chyfeirio rheolaidd at hyfforddiant ledled Cymru/y Deyrnas Unedig yn hanfodol er mwyn datblygu'r ymchwilwyr gorau yng Nghymru. Byddai'r cyfleoedd hyfforddi hyn yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd, a gallai gynnwys: ysgrifennu papurau/grantiau, cynllunio datblygiad gyrfa, rheoli ariannol a phrosiectau. Er bod hyfforddiant mewn dulliau ymchwil cancer penodol hefyd yn hanfodol ar gyfer datblygu gyrfa, dylai'r ffocws fod ar ddulliau a ddefnyddir yn gyffredin ar draws prosiectau (fel biowybodeg). Dylai rheolwyr llinell a'r uwch grŵp rheoli gefnogi hyfforddiant, gyda nifer cytunedig o sesiynau y flwyddyn.

4. Darparu cyfleoedd i Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa i eistedd ar baneli ariannu grantiau, cadeirio sesiynau cynadleddau ac ati.

Drwy'r mentrau hyn, gall WCRC chwarae rhan hanfodol yn siapio dyfodol ymchwil cancer drwy baratoi Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa gyda'r sgiliau, y rhwydweithiau, a'r cymorth sydd ei angen i ffynnu yn eu gyrfaoedd.



Uchod: Dr Laura Thomas, Prifysgol Abertawe, yn cynnal arolwg Mentimeter ar gyfer Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa yn y Diwrnod Rhwydweithio i Ymchwilwyr WCRC 2024

Gwaith ymgysylltu a meithrin cymuned WCRC



"Ein nod yw eiddo ymwybyddiaeth o ymchwil cancer ac ysbrydoli ac annog y genhedlaeth nesaf o wyddonwyr cancer"

Uchod: Dr Ashley Poon-King a thim VITAL yn siarad â disgyblion chweched dosbarth yn nigwyddiad Gwyddoniaeth ym Maes Lechyd yn Fyw, ym mis Mawrth 2024

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae WCRC a'n hymchwilyr wedi mynd ati i ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o ymchwil cancer ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr i ddilyn gyrfaedd yn y maes.

Ym mis Hydref 2023, aeth tim WCRC i gynhadledd flynyddol Ymchwil Lechyd a Gofal Cymru yn Arena Abertawe. Gyda dau o'n hymchwilyr, Dr Namrata Rastogi a Dr Mat Clement, ymgysyllton ni â dros 100 o gynadleddwyr drwy weithgareddau rhyngweithiol wedi'u dylunio i arddangos ymchwil effeithiol a gefnogir gan y Ganolfan. Darparodd y digwyddiad hwn lwyfan ar gyfer trafodaethau ystyrlon gyda'r cyhoedd a chanolfannau ymchwil eraill o bob rhan o Gymru.

Yn dilyn hyn, ym mis Tachwedd 2023, cymerodd tim WCRC ran yn "Genomeg gyda'r Nos" yn Techniquet Caerdydd. Nod y digwyddiad hwn oedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o eneteg a genomeg a'u goblygiadau i lechyd. Roedd stondin rhyngweithiol WCRC yn cynnwys gweithgaredd "genynnau neidio", ac eglurodd dau o'n hymchwilyr, Dr Kevin Norris a Dr Kez Cleal, eu gwaith ar delomerau gan ddefnyddio rhaffau a

chareiau esgidiau, gan wneud cysyniadau gwyddonol cymhleth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Roedd mis Mawrth yn arbennig o brysur i WCRC, gan ddechrau gyda chymryd rhan yn Wythnos Gyrfaoedd a Modelau Rôl Grangetown. Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei gynnal yn un o ardaloedd mwyaf amrywiol Caerdydd, ac mae'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gyda'r nod o ddarparu cyngor ac arweiniad gyrfael i'r gymuned leol. Arweiniodd ymchwilyr WCRC, Dr Mat Clement a Dr Kevin Norris, weithgareddau diddorol gan ddefnyddio microsgopau i ddangos gwahanol gelloedd i ymwelwyr, gan egluro cancer metastatig gan ddefnyddio corff anatomegol. Sbardunodd eu hymdrechion sawl sgwrs ysgogol gydag ymwelwyr, a mynegodd llawer ohonynt ddi-ddordeb newydd mewn dilyn gyrfa ym maes ymchwil cancer.

Yn ogystal, cymerodd WCRC ran yn nigwyddiad "Gwyddoniaeth ym Maes Lechyd yn Fyw!" Ysgol Meddygaeth Caerdydd, lle buon nhw'n ymgysylltu â dros 400 o ddisgyblion Blwyddyn 12. Trwy weithgaredd ymarferol yn gwneud



firysau papur, dysgodd y disgyblion am adenofirysau a sut gellir eu defnyddio i ddod o hyd i ganser. Rhannodd yr ymchwilyr Dr Ashley Poon-King a Dr Kate Milward fewnwelediadau i'w teithiau nhw ar hyd eu gyrfaedd, gan ateb cwestiynau disgyblion a rhoi cyngor ac arweiniad. Parhaodd gweithgareddau allgymorth i'r gwanwyn gydag ymweliad â Phrifysgol Abertawe gan ymchwilyr WCRC Dr

Mat Clement a Dr Claire Donnelly, a roddodd gyflwyniad i fyfyrwyr meddygol israddedig yn y drydedd flwyddyn ar eu gyrfaedd a'r ymchwil a gefnogir gan WCRC. Gwerthfawrogwyd y sesiwn yn fawr, a dywedodd un mynychwr:

"A minnau'n Swyddog Ymchwil sy'n gweithio ar brosiect cancer yn Abertawe, rhoddodd sesiwn WCRC gyfle gwerthfawr i fi drin a thrafod y mentrau ymchwil parhaus sy'n digwydd yn WCRC, gan fy ngalluogi i ehangu fy ngwybodaeth a chysylltu gyda chyfoedion sy'n rhannu diddordebau tebyg. Roedd y cyflwyniadau a gafwyd yn ystod y sesiwn yn wych, ac roedd yn wych sgwrsio â'r rhai a oedd yn cyflwyno am eu gwaith."

Mae nod WCRC o godi ymwybyddiaeth a chynhyrchu diddordeb mewn ymchwil cancer yn parhau, gyda chyfres o weithgareddau cyffrous wedi'u trefnu yn yr haf a'r hydref. Mae'r rhain yn cynnwys labordai profiad gwaith In2STEM, yr Eisteddfod, Ffair Lechyd Cymunedau Ethnig Leiafrifol, a digwyddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Meddygol yn y Senedd.



Uchod: Dr Kevin Norris yn esbonio cancer metastatig yn wythnos Gyrfaoedd a Modelau Rôl Grangetown



Uchod: Dr Mat Clement a Dr Claire Donnelly yn rhoi cyflwyniad i fyfyrwyr meddygol ym Mhrifysgol Abertawe

BLWYDDYN YN Y TÎM PPI

Mae Julie Hepburn, Arweinydd Lleyg WCRC ar gyfer Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, yn rhannu ei safbwyntiau am y flwyddyn ddiwethaf.



Ymchwil ar stondin Tim WCRC. Yr ail oedd Cynhadledd Flynnyddol WCRC, lle cawson ni wahoddiad i roi sgwrs fer ar Gynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, bod yn feirniaid ar y posteri, a bod ar stondin Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, lle cawson ni gwrrd â llawer o ymchwilwyr yn ystod y dydd. Y trydydd oedd Diwrnod Rhwydweithio i Ymchwilwyr WCRC, lle rhoddodd pedwar Partner Ymchwil sgwrsiau byr ar Gynnwys Cleifion a'r Cyhoedd i'r grŵp, a chwrrd ag ymchwilwyr drwy gydol y dydd unwaith eto. Mae cwrdd wyneb yn wyneb yn wahanol iawn i'r cyfarfodydd arferol ar Teams a Zoom, ac ymgysylltwyd yn ystyrlon ag ymchwilwyr yn y tri digwyddiad.

◆ □ Gweithio gydag Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa

Eleni roedden ni'n teimlo ei bod hi'n bryd i'r Partneriaid Ymchwil gynnal gweithdy hanner diwrnod gydag aelodau Tim y Ganolfan i adolygu sut roedden ni'n cyrraedd targedau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd sydd yn ein Cynllun Gweithredu, nodi pa rai sy'n weddill i'w blaenoriaethu, a dechrau meddwl beth hoffem eu gosod fel y nodau ac amcanion yn y cais am gyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar gyfer 2025-30.

Cynhaliwyd y cyfarfod hybrid ym mis Gorffennaf 2023 a chafwyd trafodaethau ar ystod eang o bynciau, yn ogystal â chyfle i rai ohonon ni gwrrd wyneb yn wyneb. Fel grŵp, mae'r Partneriaid Ymchwil yn cael eu croesawu'n llwyr gan WCRC, ac rydyn ni'n dal i fod yn rhan hanfodol o waith a chyfeiriad y Ganolfan.

O ganlyniad i'n trafodaethau, rydyn ni nawr yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

◆ □ Parhau i weithio'n agos gydag ymchwilwyr drwy ddwy Thema CRESt

Mae aros yn llygad y cyhoedd yn sôn am ein rôl a'n llwyddiannau yn allweddol er mwyn atgoffa ymchwilwyr o'n presenoldeb, felly mae grŵp o dri Phartner Ymchwil nawr yn gweithio'n rheolaidd gyda'n Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu i lunio erthyglau ar gyfer y cychlythyr i annog ymchwilwyr i'n cynnwys ni yn eu gwaith. Eleni rydyn ni wedi bod yn ffodus i gael tri chyfle i gwrrd ag ymchwilwyr wyneb yn wyneb. Y cyntaf oedd Cynhadledd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn Abertawe ym mis Hydref 2023, lle cafodd poster PIRIT lawer o glod, ac roedd cynrychiolaeth Partneriaid

Rydyn ni hefyd wedi cydnabod yr angen i gynnwys ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa mewn gwaith Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, ac ym mis Mehefin eleni bydd dau bartner ymchwil yn mynd i sesiwn ginio i sgwrsio â grŵp sylweddol o Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa yn Abertawe, gyda chymorth Laura Thomas sy'n rhedeg y grŵp yno ac sy'n aelod o Bwyllgor Llywio CRESt. Os bydd hwn yn llwyddiannus, byddwn ni'n cynnal rhagor o sesiynau mewn ardaloedd eraill.

◆ □ Cynyddu ffocws ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhlith Partneriaid Ymchwil WCRC

Rydyn ni'n rhannu'r nod hwn gyda sawl Grŵp



Uchod: U'r chwith i'r dde Alisha Newman, cyn Arweinydd Academiaidd WCRC ar gyfer Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI), Bob McAlister, Partner Ymchwil Lleyg WCRC (PPI), Julie Hepburn, Partner Ymchwil Lleyg Arweiniol WCRC, Dr Kathy Seddon, Partner Ymchwil Lleyg WCRC yng Nghynhadledd Ymchwil Cancer Cymru

Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yng Nghymru, a'n nod yw cydweithio gyda nhw ar y targed heriol hwn. Gobeithiwn ddysgu gan Grŵp Gwasanaeth Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sydd wrthi'n datblygu cysylltiadau da gyda grwpiau cymunedol yn y maes hwn, a byddan nhw'n cyflwyno eu gwaith yn ein cyfarfod Partneriaid Ymchwil nesaf.

Mae Dr Pam Smith yn aelod newydd o'r tim, a ymunodd â ni i lenwi'r bwch a adawyd gan Dr Alisha Newman, wedi iddi adael ar ôl gwneud cyfraniad rhagorol i'r grŵp yn ei chyfnod o bedair mlynedd fel Partner Ymchwil Academiaidd. Mae Pam yn dod o gefndir ymchwil ansoddol ac mae ganddi brofiad helaeth ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer grwpiau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, felly edrychwn ymlaen at ei chyfraniad yn y maes hwn. Fel y nodwyd, mae ehangu ein cyrhaeddiad ymhlith y cyhoedd a'r gymuned yn waith maes gweithredol.

◆ □ Gweithio tuag at gais am gyllid ar gyfer 2025-30

Mae cyllid yn hynod bwysig er mwyn ein galluogi ni i barhau i weithio ac mae'r Tim Partneriaid Ymchwil wedi cael eu hysbysu'n llawn am nodau, amcanion a strwythurau'r cais a chynnydd tuag at ei gwblhau. Mae Cynnwys y Cyhoedd wedi'i gynnwys drwy'r holl gynlluniau cyflawni, ac rydyn ni wedi chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae Partneriaid Ymchwil Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd WCRC yn ymgysylltu ag Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa ym Mhrifysgol Abertawe

Aeth Sarah Peddle a Bob McAlister, partneriaid ymchwil o WCRC, i ymweld â Phrifysgol Abertawe ym mis Mehefin 2024 i gyflwyno i gynulleidfa o ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. Cafodd y sesiwn ei chynnal gan weithgor ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa, Cyfadrn Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd, yn y Sefydliad Gwyddor Bywyd.

Canolbwynt y cyflwyniad oedd Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) fel y mae'n cael ei ymarfer yn WCRC, yn ogystal â thrin a thrafod profiadau eang Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, a chlywon ni hefyd gan ddau bartner ymchwil WCRC am eu profiadau eang. Y pynciau allweddol a gafodd eu trafod oedd Safonau'r Deyrnas Unedig ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd (UKSPI), sef canllawiau a gafodd eu datblygu gan Bob McAlister tra'r oedd yn aelod o'r cyhoedd. Fe dynnodd Sarah Peddle sylw hefyd at ei chysylltiadau cyfranwyr cyhoeddus â Banc Data SAIL, sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Abertawe.

Cafodd y digwyddiad, a drefnwyd gan Dr Laura Thomas, cydlynnydd gweithgareddau datblygu ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ym Mhrifysgol Abertawe, ei drefnu mewn ymateb i gais gan grŵp o ymchwilwyr ar ddechrau

eu gyrfa ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd Dr Thomas yn falch o groesawu'r Partneriaid Ymchwil fel ymwelwyr, gan fod llawer o awydd i glywed yr hyn oedd ganddyn nhw i ddweud am fanteision cynnwys y cyhoedd mewn gwaith ymchwil.

Yn ogystal â thrafod gwerth cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil, cafodd y rhai a oedd yn bresennol adnoddau a chymorth gan Bob a Sarah am ymholiadau sy'n ymwneud â chynnwys y cyhoedd, gan gynnwys y Ganolfan Gymorth a Chyflawni Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Cafodd y sesiwn groeso da, gan bwysleisio ymrwymiad Partneriaid Ymchwil WCRC i drafod eu gwaith ac effaith ehangach Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd mewn ymchwil.

Meddai Bob McAlister: "Fel Partneriaid Ymchwil WCRC, rydyn ni'n awyddus i fod mewn cysylltiad ag ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa er mwyn rhannu'r manteision a'r materion ymarferol o gynnwys y cyhoedd gyda nhw, felly roedd y sesiwn yn addas i'r ddwy ochr. Teimlad gwych oedd cael bod ymhlith y rhai oedd ar ddechrau eu gyrfaoedd ymchwil ysbrydoledig, ac i gael rhagor o wybodaeth am y gwaith gwych


sy'n digwydd ar hyd a lled Cymru."



Uchod: Bob McAlister yn cyflwyno i Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa ym Mhrifysgol Abertawe



Uchod: Partneriaid Ymchwil y Ganolfan Ymchwil Cancer Cymru, Bob McAlister a Sarah Peddle (canol), ym Mhrifysgol Abertawe gydag ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa.



Dathlu blwyddyn o PIRIT: trawsnewid ymchwil drwy gynnwys y cyhoedd

Mae Pecyn Cynnwys y Cyhoedd mewn Effaith Ymchwil (PIRIT) yn nodi blwyddyn ers ei lansio yng Nghynhadledd Marie Curie ym mis Chwefror 2023.

Nod yr adnodd rhad ac am ddim hwn a gynhyrwyd ar y cyd yw helpu ymchwilwyr sy'n gweithio gyda'r cyhoedd i gynllunio sut i ymwneud ag ymchwil mewn modd ystyrlon, ochr yn ochr â helpu i olrhain a dangos y gwahaniaeth mae hynny'n ei wneud. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r pecyn cymorth nid yn unig wedi trawsnewid y ffordd y mae ymchwilwyr yn mynd i'r afael â chynllunio a gwerthuso sut mae'r cyhoedd yn cael eu cynnwys trwy ei ddull pragmatig, mae hefyd yn esiampl o gydweithio yn y gymuned ymchwil.

Ffrwyth gwaith cydweithrediad rhwng WCRC a Chanolfan Ymchwil Marie Curie (MCRC) yw PIRIT. Mae'r prosiect wedi'i gynhyrchu gydag aelodau o'r cyhoedd ac yn enghraifft wych o bartneriaeth rhwng ymchwilwyr a'r cyhoedd. Mae saith ar hugain o gyfranwyr cyhoeddus i gyd, gan gynnwys pedwar sy'n aelodau o dim y prosiect, sydd wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio PIRIT. Roedd eu gwaith yn amrywio o bennu hyd a lled prosiectau, dylunio cyfarpar, datblygu cynnwys a threialu, i ledaenu a llywio cynlluniau gweithredu.

Drwy gydol 2023, mae tim PIRIT wedi canolbwyntio ar ymdrechion penodol i ymgysylltu, gan gyflwyno a thrafod gyda chynulleidfaoedd amrywiol trwy gyfrwng cynadleddau, cyflwyniadau, gweithdai, a digwyddiadau hyfforddi. Llwyddodd y

gweithgareddau i gryfhau perthnasoedd sy'n bodoli eisoes yn ogystal â chreu rhai newydd gyda'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae PIRIT wedi mynd y tu hwnt i ffiniau gan ei fod wedi cael ei lawrlwytho ar dros 800 o achlysuron ar draws 14 o wledydd, o Awstralia i UDA. Mae hyn yn dangos y diddordeb eang yn y gwaith a pha mor weithgar yw'r cymunedau ymchwil a'r rhai sy'n cynnwys y cyhoedd.

Mae arianwyr a rheoleiddwyr ymchwil, gan gynnwys Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), a'r Awdurdod Ymchwil Iechyd, wedi cymeradwyo a hyrwyddo'r gwaith o ledaenu'r pecyn cymorth, gan gynnal gweminarau a gweithdai PIRIT, a'u cynnwys mewn blogiau, tudalennau adnoddau a mwy. Yn fwyaf nodedig, mae arianwyr ymchwil Marie Curie ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymgorffori PIRIT yn eu canllawiau ar wneud ceisiadau am grant.

Mae ymchwilwyr yn defnyddio PIRIT yn gynyddol i'w helpu i gynllunio ymchwil ac arddangos yr effaith wirioneddol y mae cynnwys y cyhoedd yn ei chael. Eglurodd Alisha Newman, Arweinydd Gweithredu a Lledaenu PIRIT:

"Mae myfyrwyr PhD unigol a thimau ymchwil mawr fel ei gilydd yn defnyddio PIRIT. Mae ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa wedi rhoi adborth cadarnhaol ar yr Adnodd Cynllunio gan ei fod wedi eu helpu i lunio syniadau a

thrafodaethau am weithgareddau cynnwys y cyhoedd. Mae hefyd wedi helpu i bennu costau eu grantiau yn fwy cywir, gan fod y ffigurau wedi'u seilio'n agosach ar yr hyn y mae'r cyhoedd yn debygol o fod yn rhan ohono ac unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnynt. Mae'r ffordd y defnyddir y Teclyn Olrhain yn esblygu hefyd, gan fod sawl canolfan ymchwil yn ei ddefnyddio i gofnodi effaith cynnwys y cyhoedd ar wneud penderfyniadau ar lefel canolfannau ac mewn astudiaethau unigol."

Mae datblygiadau cyffrous o'n blaenau ar gyfer PIRIT, a bydd papur yn cael ei gyhoeddi am ei ddatblygiad a'i werthusiad. Mae'r map ffordd hefyd yn cynnwys cynllun ar gyfer rhannu a gweithredu, yn ogystal â chwilio am gyllid ar gyfer gwerthusiad ehangach. Er mwyn ateb y galw cynyddol gan unigolion a sefydliadau am arddangosiadau PIRIT, bydd fideo o daith y pecyn cymorth a dogfen cwestiynau cyffredin yn cael eu hychwanegu at y dudalen ar y we. Mae Alisha Newman, Arweinydd Prosiect PIRIT, yn edrych ymlaen at y dyfodol, a dywedodd:

"Mae llwyddiant PIRIT a'r effaith y mae wedi'i chael mewn blwyddyn yn unig yn wirioneddol ryfeddol. Pleser o'r mwyaf yw gweld ymchwilwyr a chyfranwyr cyhoeddus yn cofreiddio'r pecyn cymorth. Wrth i ni edrych ymlaen, mae PIRIT yn parhau i yrru arferion gorau o ran cynnwys y cyhoedd a gwerthuso'r effaith. Bydd yn cynorthwyo cymunedau ymchwil i feithrin partneriaethau ystyrlon gyda'r cyhoedd i gyflawni ymchwil sydd o fudd gwirioneddol i'r cyhoedd."

EDRYCH YMLAEN AT 2024-25



Uchod o'r chwith i'r dde: Aelodau Hyb WCRC, Katie Larkins, Sarah Hughes, Jenni Macdougall, Julie Hepburn, Ceri Morris a Zoe Evans, yn cefnogi ymgyrch Red4Research Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ers lansio Strategaeth Ymchwil Canser Cymru (CRcSt) yn 2022, rydyn ni wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ailadeiladu'r gymuned ymchwil cancer yng Nghymru, ac wrth hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cydweithio a dysgu. Edrychwn ymlaen at barhau a'r gwaith hwn gyda mwy fyth o ffocws, penderfyniad ac egni yn 2024-25.

Rydyn ni'n hynod falch o lwyddiannau ein hymchwilwyr a ariannwyd - gyda llawer ohonyn nhw'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn, a disgwyllwn byddwn ni'n crynhoi llawer mwy ohonyn nhw ymhen blwyddyn. Bydd llawer o'n hymchwilwyr a ariennir yn trosglwyddo i gyllid sefydliadol annibynnol a/neu gynaliadwy yn 2025 - mae cadw'r doniau academaidd gorau a chefnogi ein 'sêr newydd' yng Nghymru i ddod yn ymchwilwyr annibynnol, yn ffordd allweddol y bydd WCRC yn parhau i

adeiladu mäs critigol o ymchwilwyr mewn meysydd allweddol o gryfder cynyddol yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi ymchwilwyr cancer ar hyd eu llwybrau gyrfa ac i adeiladu rhwydwaith ymchwil integredig cryf, byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu traws-thema a thraws-sefydliadol ar draws y gymuned ymchwil cancer yng Nghymru. Rhagwelwn y bydd Cynhadledd Ymchwil Canser Cymru yn fwy ac yn well fyth flwyddyn nesaf, ac rydyn ni'n bwriadu ehangu ein rhaglen o weithgareddau i gynnwys digwyddiad sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gyrfaedd Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa.

Hoffwn ddiolch i'n hymchwilwyr a ariannwyd am eu hymgyssylltiad, ein cynrychiolwyr Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd am eu brwdfrydedd a'u

doethineb, cydweithwyr yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am eu cefnogaeth, a'n tim hwb WCRC am eu gwaith caled (yn enwedig wrth drefnu cynhadledd wych) a'u gwyntwch rhyfeddol yn ystod cyfnod anodd.

Gan edrych tua 2025 a thu hwnt, mae'r WCRC wedi cael cyfle i nodi ein gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Ein nod fydd adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma, a thyfu cymuned ymchwil cancer gydlynol a chynaliadwy yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Credwn y bydd sefydlu cymuned ymchwil gadarn a chysylltiedig yn llwyddiannus yn arwain at gynydd mewn cyfleoedd ymchwil a manteision i gleifion yma yng Nghymru.

- Yr Athro Mererid Evans, Cyfarwyddwr

www.walescancerresearchcentre.org

